**7. Cynigion i'r Cyngor:**

**7.1. Cynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Sir Ian Chandler**

Mae'r Cyngor yma yn nodi:

Roedd y Datganiad o Argyfwng Hinsawdd a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 16eg Mai 2019 yn cynnwys yr ymrwymiadau:

- *Bydd y Cyngor hwn yn parhau i adolygu'r Cynllun Corfforaethol, y Cynllun Llesiant, Cynlluniau Datblygu Lleol ac unrhyw gynlluniau a pholisïau perthnasol eraill er mwyn cefnogi'r uchod.*
- *Yn gweithio gyda phartneriaid ar draws y Sir a Chynghorau a mudiadau eraill i helpu datblygu a gweithredu arferion gorau wrth gyfyngu ar y cynhesu byd-eang i lai na 1.5 gradd Celsius.*

Mae deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i atgyfnerthu egwyddorion datblygu cynaliadwy ym mhob un practis.

Mae'r Cyngor hwn yn nodi hefyd:

Mae angen i'r Cyngor yn gyfreithiol i ddal o leiaf £10 miliwn mewn arian parod wrth gefn, ac er mwyn rheoli'r llif arian sydd yn amrywio, mae'r Cyngor fel arfer yn dal rhwng £10 miliwn ac £16 miliwn mewn arian parod wrth gefn sy'n cael ei fuddsoddi.

Y Cyngor yw Ceidwad Buddsoddiad cyrff eraill gan gynnwys Cronfa Eglwys Cymru ac Ymddiriedolaeth Gwaddol Ysgol Fferm Sir Fynwy, ac mae eu buddsoddiad cyfun hwy yn fwy na £5 miliwn.

Mae'r Cyngor yn rhan o Gronfa Pensiwn Gwent Fwyaf sydd yn meddu ar asedau sy'n cael eu buddsoddi gwerth mwy na £3.7 biliwn.

Mae'r Cyngor yn cytuno i:

a) Ymchwilio pa mor gyfrifol y mae'r Cyngor yn buddsoddi ei falans arian parod
b) Datblygu polisi buddsoddi cynaliadwy sydd yn gyson gyda Datganiad o Argyfwng Hinsawdd y Cyngor a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
c) Gweithio gyda Chronfa Pensiwn Gwent Fwyaf er mwyn mabwysiadu polisi buddsoddi cynaliadwy tebyg.

**7.2. Cynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Sir Frances Taylor**

Mae'r Cyngor hwn yn galw ar Lywodraeth Cymru i adolygu eu polisi a'u dull o weithio o ran Ardrethi Annomestig ar gyfer busnesau bach.

O'r 1af Ebrill 2022, mae'r Cynllun Rhyddhad Ardrethi Annomestig ar gyfer Busnesau wedi ei ddiwygio er mwyn lleihau'r lefel o ryddhad y mae busnesau bach yn derbyn erbyn hyn, a hynny hyd at uchafswm o 50%. Mae hyn yn golygu bod busnesau a fu cyn hyn yn medru manteisio ar y ffaith nad oeddynt yn gorfod talu, nawr yn gorfod talu 50% o'u biliau cyfradd dreth ar ôl derbyn unrhyw ryddhad arall sydd yn berthnasol.

